# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## Cofnodion (CC(3)-21-08)

**Dyddiad: 19 Tachwedd 2008**
**Amser: 9.00am - 10.14am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Janice Gregory, Ogwr (Cadeirydd)
Peter Black, Gorllewin De Cymru
Paul Davies, Preseli Sir Benfro
Nerys Evans, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Lara Date, Clerc
Annette Millett, Dirprwy Glerc
Denise Rogers, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Neil Cox, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol

**1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Daeth ymddiheuriadau i law gan Lynne Neagle AC, a Joyce Watson AC, yr oedd Ann Jones AC yn dirprwyo ar ei rhan.

**2: Ymchwiliad craffu - hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan y byd**

CC(3)-21-08 - Papur 1

2.1 Cytunodd yr Aelodau, yn dibynnu ar rai digwyddiadau, ar y cylch gorchwyl, y rhaglen arfaethedig, y tystion, y rhestr o ymgyngoreion a'r alwad am dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad.

**Camau i'w cymryd:**

Bydd y broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad i hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan y byd yn cynnwys;

ceisio barn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y dyletswydd diwylliannol arfaethedig a'i gwaith ar hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant yn rhyngwladol

tystiolaeth ysgrifenedig gan Opera Cenedlaethol Cymru ar ei waith rhyngwladol

profiadau cyrff celfyddydol a diwylliannol lleol o ran ceisio gweithio ar lefel ryngwladol, ee theatrau

holi'r BBC ynghylch ei ymagwedd ryngwladol

Bydd yr alwad am dystiolaeth yn cael ei diwygio a'i dosbarthu a bydd aelodau'r pwyllgor yn gallu anfon unrhyw awgrymiadau pellach ar gyfer yr ymchwiliad at y clerc.

**3: Yr ymchwiliad i gam-drin domestig - cytuno ar yr adroddiad**

3.1 Cytunodd y pwyllgor i ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi).

**Papur i'w nodi:**

CC(3)-21-08 - Papur 3

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
Papur: CC(3)-20-08

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod ar 5 Tachwedd 2008.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2008**